

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd brynhawn Iau 28 Medi 2017 am 1.30pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach.

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet oedd yn bresennol:**

A. Morgan M. Webber M. Norris

R. Bevan R. Lewis A. Crimmings G. Hopkins

C. Leyshon

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:**

J. Brencher, J. Davies, M. Griffiths, J. Harries, P. Howe, S. Morgans, E. Webster

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
(Ysgrifennydd i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Iningrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a  
Gwasanaethau i Blant

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr P. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr N. Wheeler – Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd

Mr R. Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a  
Gofal y Strydoedd

Mr D. Batten – Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad

Mr N. Elliot – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion

Ms A. Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant

**48. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. Rosser.

**49. DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**50. NEWID I DREFN YR AGENDA**

Meddai'r Arweinydd, oherwydd bod aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod, byddai eitem 12 ar yr agenda – 'Canolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach – Cyfleoedd Buddsoddi ac Ad-drefnu' – yn cael ei symud i'r eitem gyntaf i'w hystyried. Fyddai dim newid i drefn gweddill yr agenda.

**51. CANOLFAN HAMDDEN CWM RHONDDA FACH – CYFLEOEDD BUDDSODDI AC AD-DREFNU**

Rhoddodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad raglen o newidiadau arfaethedig i'r Aelodau o'r Cabinet ynglŷn â Chanolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach. Byddai'r newidiadau hyn yn caniatáu trawsnewid y ganolfan yn gyfleuster hamdden ochr sych sylweddol, ac roedd gofyn cael cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r cynnig.

Rhoddodd y Swyddog fanylion am y cynnig, gan egluro'r opsiwn o ran ad-drefnu'r Ganolfan Hamdden i gynnwys cau'r pwll nofio, ad-drefnu neuadd y pwll, y balconi a'r caffi i ddarparu cyfleuster ffitrwydd newydd a throi hanner y neuadd chwaraeon yn y cefn yn llawr 3G i ddarparu cyfleusterau hyfforddi rygbi a pêl-droed 5-bob-ochr. Ychwanegwyd y byddai hyn yn cefnogi'r dyhead i weithio gyda phartneriaid a chyflenwi cyfleuster newydd ar gyfer pêl-rwyd yn y ganolfan. Rhoddwyd gwybod hefyd i'r Aelodau fod rhan o'r gwaith ad-drefnu arfaethedig wedi amlygu manau yn y cyfleusterau presennol y byddai modd eu troi'n swyddfeydd yn rhan o Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor.

Yn rhan o'i adroddiad, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y rhesymeg dros y cynnig o ran y defnydd annigonol o'r pwll nofio – o'i gymharu â'r pyllau nofio eraill mae'r Cyngor yn eu cynnal – a chyfle i fuddsoddi yng nghyfleuster hamdden y Ganolfan

gan mai'r cyfleuster hamdden yng Nghwm Rhondda Fach yw'r un mwyaf mae'r Cyngor yn ei gynnal.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yn gadarnhaol am gyfleoedd i fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach os bydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen, a siarad am farchnad ffitrwydd unigryw y Ganolfan y byddai modd ei gwella ymhellach drwy'r cynnig. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y dirywiad yn niferoedd defnyddwyr y pwll a meddai fod hyn, yn rhannol, oherwydd dyluniad gwael y pwll, ond, unwaith eto, tynnodd sylw at y cyfleoedd a fyddai ar gael i drigolion yn sgil y newidiadau arfaethedig. Tynnodd sylw hefyd at y cyfle i symud ymlaen â'r trafodaethau cychwynnol â Phennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog, a'r posibilrwydd y gallai'r Cyngor ddarparu rhagor o gymorth ynglŷn â phwll yr ysgol ac, o bosibl, ddefnyddio'r grant nofio am ddim i gynnal rhagor o oriau agor i'r cyhoedd.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd ei sylwadau o blaid y cynnig mewn perthynas â'r cyfleoedd buddsoddi a'r manteision a ddaw i blant yr ardal ar ffurf pêl-droed, rygbi a pêl-rwyd. Gofynnodd hefyd am gyfnod yr ymgynghoriad, a rhoddwyd gwybod iddi y byddai'r broses ymgynghori arfaethedig yn bedair wythnos o hyd.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, a'r Aelod Ward ar gyfer Tylorstown, hefyd am y cynnig. Dechreuodd drwy ddweud nad oedd yn gwybod am y cynnig hyd nes cyhoeddi'r adroddiad, ac roedd yn falch o gael gwybod y byddai'r mater yn destun ymgynghoriad oherwydd roedd eisoes wedi clywed barn gymysg ar y cynnig gan drigolion lleol. Anogodd aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan yn y broses ymgynghori os bydd y penderfyniad yn cael ei wneud heddiw. Roedd wedi ei siomi gan y cynnig i gau'r pwll, ond, siaradodd yr Aelod yn gadarnhaol am y cyfleoedd buddsoddi a fyddai ar gael a datblygu partneriaeth gadarnhaol â mudiadau/sefydliadau lleol o ran cynyddu cyfleoedd i ferched a menywod gael cymryd rhan mewn pêl-rwyd a'r defnydd gwell o'r lle sydd ar gael yn y Ganolfan.

Â chaniatâd y Cadeirydd, cafodd llythyr gan y Cynghorydd Adams (Aelod Ward lleol ar gyfer Tylorstown) – nad oedd modd iddo fod yn bresennol oherwydd ymrwymiad gwaith – ei ddisbarthu i'r Aelodau gael ei ystyried.

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar y galw cudd mewn perthynas â'r Ganolfan, a siarad eto am y buddsoddiad cadarnhaol a fyddai'n cael ei gyflwyno, fel sydd i'w weld mewn Canolfannau Hamdden eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Meddai hefyd fod y Cyngor yn dal i wynebu mesurau cyni, a bod cyfleoedd buddsoddi – fel yr un sy'n cael ei gynnig – yn gyfle unigryw y bydd e'n ei groesawu os bydd gwaith ad-drefnu yn arwain at ddefnydd gwell ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth.

Siaradodd y Cynghorwyr P. Howe ac S. Morgans am yr eitem.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) dechrau'r broses ymgynghori ynglŷn â'r cyfleoedd buddsoddi ac ad-drefnu ar gyfer Canolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach;
- b) ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r opsiwn o ran ad-drefnu Canolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach, gan gynnwys cau'r pwll nofio, ad-drefnu neuadd y pwll, y balconi a'r caffi i ddarparu cyfleuster ffitrwydd newydd a throi hanner y neuadd chwaraeon yn y cefn yn llawr 3G i ddarparu cyfleusterau hyfforddi rygbi a pêl-droed 5-bob-ochr – byddai hyn hefyd yn cefnogi'r dyhead i weithio gyda phartneriaid a darparu cyfleuster newydd ar gyfer pêl-rwyd yn y ganolfan;
- c) nodi, yn rhan o'r gwaith ad-drefnu arfaethedig, byddai manau penodol yn y cyfleusterau presennol yn cael eu troi'n swyddfeydd yn rhan o Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor;
- d) byddai'r Swyddogion yn cynnal trafodaethau cychwynnol â Phennaeth Ysgol Gymuned Glynrhedynog i ystyried cyfleoedd i sicrhau bod pwll nofio'r ysgol yn fwy hygyrch, gan gynnwys posibilrwydd defnyddio'r grant nofio am ddim i gynnal rhagor o oriau agor i'r cyhoedd;
- e) cael adroddiad pellach sy'n crynhoi canlyniadau'r broses ymgynghori a'r adborth a fydd wedi dod i law cyn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r cynnig ad-drefnu sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.

(**D.S.** Ar ddiwedd yr eitem yma gadawodd y Cynghorwyr P. Howe, J Harries ac S. Morgans y cyfarfod.)

## **52. AILDDATBLYGU CANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF**

Trwy gymorth cyflwyniad PowerPoint, adroddiad, a fideo o'r awyr, rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sylweddol sy'n parhau i gael ei wneud ar safle hen ganolfan siopa Dyffryn Taf. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y buddsoddiad ariannol yn rhan o'r cynllun a phwysigrwyd sicrhau datblygiad priodol, gan roi gwybod i'r Aelodau y cafodd cais cynllunio ar gyfer y safle ei gymeradwyo ar 20 Hydref 2017.

Rhoddodd y Swyddog wybod am arddangosfa gyhoeddus gadarnhaol, dros ddeuddydd, a gafodd ei chynnal ym mis Mawrth. Roedd yn gyfle i drigolion a busnesau lleol weld y cynlluniau diweddaraf a chwrrd â charfan y prosiect.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai pencadlys newydd Trafnidiaeth Cymru, deiliad nesaf masnachfaint rheilffyrdd a gweithredwr y gwasanaeth Metro i gyd ar safle Dyffryn Taf ar ei newydd wedd, a bod trafodaethau pellach â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn cael eu cynnal i sicrhau, o leiaf, feddiannu'r adeilad swyddfeydd mwyaf. Roedd cyfle i godi pont droed newydd dros Afon Taf – o safle Dyffryn Taf i Barc Coffa Ynysangharad – hefyd yn cael ei ystyried i hyrwyddo cerdded yng nghanol y dref. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod cynlluniau cysyniadol yn cael eu paratoi ar hyn o bryd, a bod cyfres o arolygon ac ymchwiliadau tir wedi eu cynnal.

Aeth y Cyfarwyddwr yn ei flaen trwy roi gwybod bod cynllun costau manwl ar gyfer ailddatblygu safle Dyffryn Taf wedi ei baratoi gan Rhomco Consulting a Willmott Dixon â gwerth adeiladu rhagamcanedig o tua £36.8 miliwn. Ychwanegwyd bod cyfanswm cost y prosiect yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, gan gynnwys y costau blaenorol gwirioneddol, costau gosod offer, ffioedd a lwfio ar gyfer risgiau a phethau annisgwyl sy'n gyffredin yn achos pob prosiect cyfalaf mawr. Byddai'r pecynnau gwaith unigol wedyn yn destun profion i gwblhau'r cyfanswm cost ac i gynhyrchu cyfanswm gofyniad cyllidebol ar gyfer y cynllun, a byddai'r cyfan yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet ar adeg briodol.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai y buddsoddiad o ran datblygu safle Dyffryn Taf ac adfywio canol y dref, gan roi sylwadau ar

fanteision y datblygiad i drigolion y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth.

Siaradodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf, a diolch i'r Swyddogion o'r gwahanol adrannau am y swmp enfawr o waith a oedd wedi ei wneud yn rhan o brosiect mor uchelgeisiol.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi'r cynnydd hyd yma a chymeradwyo camau nesaf y gwaith ailddatblygu fel sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.

### **53. CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL – “Y FFORDD YMLAEN”**

Rhoddodd y Prif Weithredwr amlinelliad i'r Aelodau o sut bydd y Cyngor yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol – “Y Ffordd Ymlaen” – yn ystod y tair blynedd nesaf mewn hinsawdd o ostyngiadau ariannol pellach, trwy fuddsoddi yn nyfodol Rhondda Cynon Taf a thrwy wella a darparu gwasanaethau hanfodol mewn ffordd wahanol.

Meddai fod effaith y cyni a'r pwysau ariannol cynyddol yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ystyried sut byddai gwasanaethau'n cael eu darparu yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol, ac ychwanegu bod adegau o'r fath yn mynnu dull meddwl ac atebion gwahanol. Rhoddwyd manylion i'r Aelodau am y pum maes wedi eu dewis i'w buddsoddi ynddyn nhw er mwyn gwella gwasanaethau hanfodol.

Ar ôl amlinellu'r adroddiad, rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod i'r Aelodau fod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o waith cyn craffu ar 2 Hydref, a chynnig gohirio'r eitem hyd nes cael canlyniad y cyfarfod hwnnw.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) cyn i'r Cabinet ystyried yr eitem, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gwneud gwaith cyn craffu ar yr eitem yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017;
- b) trafod yr adroddiad yn ystod cyfarfod yn y dyfodol ar ôl cynnal gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

#### **54. TRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION – DATBLYGU TAI GOFAL YCHWANEGOL**

Tynnodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sylw'r Aelodau at yr adroddiad ger eu bron a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu strategaeth y Cyngor i foderneiddio opsiynau llefy ar gyfer pobl hŷn a darparu tai gofal ychwanegol ar draws Rhondda Cynon Taf.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa mai'r weledigaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yw darparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n unigoleddig, gan ganolbwyntio'n gryf ar ddewis a materion rheoli yn achos defnyddwyr unigol y gwasanaethau, a siarad am yr agweddau cadarnhaol ar ddarparu tai Gofal Ychwanegol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau at adran 6.8 o'r adroddiad a oedd yn amlygu pedwar safle arfaethedig ar gyfer datblygu tai gofal ychwanegol, gan ddweud byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Tai Linc Cymru i ddatblygu'r prosiectau penodol ymhellach a pharatoi achos busnes unigol ar gyfer pob datblygiad gofal ychwanegol.

Ar ôl amlinellu'r adroddiad, rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet wybod i'r Aelodau fod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o waith cyn craffu ar 2 Hydref, a chynnig gohirio'r eitem hyd nes cael canlyniad y cyfarfod hwnnw.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant am yr eitem, a siarad yn gadarnhaol am ei ddau ymweliad â datblygiadau tai Gofal Ychwanegol. Siaradodd am yr awyrgylch gymunedol yn y datblygiadau a'r cymorth wedi ei addasu i ddiwallu anghenion y preswylwyr. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet yr adroddiad, a chroesawu barn y pwyllgor craffu ar y mater.

#### **PENDERFYNODD y Cabinet:**

- a) cyn i'r Cabinet ystyried yr eitem, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gwneud gwaith cyn craffu ar yr eitem yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017;
- b) trafod yr adroddiad yn ystod cyfarfod yn y dyfodol ar ôl cynnal gwaith cyn craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

## **55. YR ADOLYGIAD PARHAUS O'R DDARPARIAETH LLEOLIADAU A LLETY AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant wybodaeth i'r Aelodau am ganlyniad adolygiad annibynnol o'r ddarpariaeth llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adolygiad wedi nodi'r datblygiadau parhaus a'r trefniadau newydd a oedd wedi eu cyflwyno, a hefyd y buddsoddiad i gryfhau capasiti ac ansawdd yn y gwasanaeth gofal maeth prif ffrwd. Ychwanegwyd bod yr adolygiad wedi nodi bod y gwasanaethau'n gwella eu gallu i gyflawni deilliannau dymunol y Cyngor yn y maes yma.

Roedd yr adroddiad ger bron yr Aelodau hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i'r Cyngor – oherwydd yr heriau i'r holl ddarparwyr o ran darparu gofal preswyl o ansawdd da i'r nifer gymharol fach o blant y mae'n diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau – barhau i ganolbwyntio ei ddarpariaeth breswyl ar nifer lai o unedau o ansawdd uchel. Meddai'r Cyfarwyddwr Cyfadran fod y galw am ofal preswyl yn lleihau a'i bod yn bosibl bydd yn gostwng ymhellach yn y dyfodol, felly, nid oes angen rhagor o ddarpariaeth breswyl fewnol ar hyn o bryd (yn ychwanegol at yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ar safleoedd Bryndâr a'r Beddau). Manteisiodd y Cyfarwyddwr Cyfadran ar y cyfle hefyd i atgoffa'r Aelodau o'r penderfyniad blaenorol i roi'r gorau i gynnal cartref i blant yn Nhrefherbert ac nad oedd tystiolaeth i awgrymu y dylai Cartref Treherbert gael ei ailagor.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant am yr adolygiad cadarnhaol a ddaeth i law a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn parhau i symud ymlaen yn y maes yma, yn addasu i newidiadau diwylliannol a'r agweddau cadarnhaol ar waith ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd. Gwnaeth yr Aelod sylwadau ar y cynnydd yn niferoedd y Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig, a rhoi gwybod i'r Aelodau fod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol eisoes yn monitro'r mater yma. Ategodd hefyd y penderfyniad yng Nghartref Plant Treherbert gan ddweud nad oedd hyn wedi effeithio ar y ddarpariaeth yn y cartrefi eraill sydd ar gael.



Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am yr eitem a'r pwyslais ar helpu teuluoedd i ofalu am eu plant, a'u magu, mewn modd effeithiol fel bod modd i'r plant aros yn amgylchedd y teulu.

Holodd yr Arweinydd am y goblygiadau staffio o ran cau Cartref Plant Treherbert a meddai'r Swyddogion fod y staff wedi eu defnyddio i lenwi swyddi gwag mewn meysydd eraill a bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos nesaf i ystyried yr opsiynau ymhellach.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ar adolygu darpariaeth lleoliadau a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (fel sydd wedi ei amlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad);
- b) cefnogi'r argymhellion wedi eu nodi ym mharagraff 5 o Atodiad 1 i'r adroddiad;
- c) nad yw Cartref Plant Treherbert yn cael ei ddefnyddio bellach.

(**D.S.** Ar ddiwedd yr eitem yma, rhoddodd y Cynghorydd Hopkins a'r Cynghorydd Leyshon ymddiheuriadau, a gadael y cyfarfod.)

**56. GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN – PARC ABERDÂR I'R CYHOEDD)**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ganlyniadau i'r Aelodau o ran y broses ymgynghori ynglŷn â cheisio caniatâd i wneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n cyflwyno gofyniad o ran cadw cŵn ar dennyn ar bob adeg yn y Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr.

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i gynnal ymgynghoriad, o ran effaith y Gorchymyn – a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin – a'i effaith ar yr is-ddeddf bresennol yn y Parc mewn perthynas â chadw cŵn ar dennyn ar bob adeg.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod am y broses ymgynghori a gynhaliwyd, a chyfeirio'r Aelodau at y gefnogaeth gyhoeddus aruthrol o blaid y Gorchymyn arfaethedig a'r ymatebion cefnogol gan randdeiliaid.

Diolchodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant y Swyddogion am gynnal y broses ymgynghori ac i'r cyhoedd am gymryd rhan yn y broses ac am yr ymateb aruthrol i gyflwyno'r Gorchymyn.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi cefnogaeth aruthrol y cyhoedd o blaid cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus er mwyn cyflwyno gofyniad mewn perthynas â chadw cŵn ar dennyn yn y Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr;
- b) ar ôl ystyried ymatebion i'r broses ymgynghori â'r cyhoedd, dylai Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus gael ei wneud a byddai'r Gorchymyn hwnnw yn dod i rym ar 1 Hydref 2017 ar gyfer rheoli cŵn yn y Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr, fel sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 i'r adroddiad;
- c) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – Iunio Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus terfynol sy'n ymwneud â mesurau rheoli cŵn yn y Parc i'r Cyhoedd, Aberdâr, a sicrhau ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor;
- d) pennu swm ar gyfer yr hysbysiad cosb benodedig am fetu â chydymffurfio â gofyniad y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, sef £100.

(**D.S.** Meddai'r Ysgrifennydd i'r Cabinet mai'r ffordd o weithredu'r Gorchymyn ar yr un pryd â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a gytunwyd gan y Cabinet ar 22 Mehefin 2017 yw eithrio'r penderfyniad rhag cael ei alw i mewn, er mwyn caniatáu iddo ddod i rym ar 1 Hydref 2017.)

## **57. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 – DEFNYDD O'R DDEDDF YN 2016–17 GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yr wybodaeth ddiweddaraf flynyddol i'r Aelodau am ddefnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017, a chadarnhau ei defnyddio mewn modd cyson a phriodol yn unol â pholisi'r Cyngor.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am yr wybodaeth ddiweddaraf a'r ffaith bod y staff yn gweithio yn unol â'r polisiau sydd ar waith i'w diogelu eu hunain ac i ddiogelu'r Cyngor.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi cynnwys yr adroddiad;
- b) cydnabod bod Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 wedi ei defnyddio mewn modd priodol sy'n gyson â'r polisiau, yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017;
- c) cydnabod bod y Polisi Corfforaethol presennol o ran Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r Polisi Corfforaethol o ran Casglu Data Cyfathrebu o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn dal i fod yn briodol, yn addas i'r diben, ac y dylen nhw barhau i gael eu defnyddio.

(**D.S.** Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cyngorydd J. Davies y cyfarfod.)

## **58. ADOLYGIAD O ALLU CYNLLUNIAU PARCIO A THEITHIO**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd ei adroddiad i'r Aelodau a oedd yn cyflwyno canfyddiadau'r Adolygiad o allu'r Cynllun Parcio a Theithio a oedd wedi ei gynnal. Meddai'r Swyddog y byddai datblygu a buddsoddi mewn gwaith gwella cynlluniau parcio a theithio yn darparu manteision trafndiaeth ac amgylcheddol ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac ychwanegu byddai'r cynlluniau sy'n cael eu ffafrio yn arwain at deithiau mewn cerbydau yn lleihau yn sylweddol, gwella hygyrchedd i fannau cyflogaeth trwy ddull teithio cynaliadwy, lleihau tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd strategol a lleol, a gwella ansawdd aer.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y cynigion i'w symud ymlaen. Rhoddodd y Swyddog wybod hefyd am yr elfennau lle roedd arian eisoes wedi ei neilltuo ond heb eu crybwyll yn yr adroddiad mewn perthynas â safle Parcio a Theithio y Porth a maes parcio Gorsaf Drenau Pont-y-clun.

Siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am yr adroddiad, ac am yr adolygiad, ac am yr arian wedi ei dynnu i lawr yn llwyddiannus, yn unol â'r cynigion ar gyfer y gwasanaeth Metro a'r cyfleoedd sydd ar gael.

Siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M. Griffiths hefyd am y mater.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi'r matrices o ran y cynlluniau Parcio a Theithio posibl sydd i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
- b) cefnogi'r cynlluniau wedi eu hamlygu yn yr adroddiad i'w symud ymlaen, y mae modd eu darparu yn rhan o'r adnoddau presennol;
- c) sefydlu Rhaglen Gyfalaf o Gynlluniau Parcio a Theithio i'w datblygu a'u cyflawni.

## **59. ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH CLUDO DISGYBLION I YSGOLION PRIF FFRWD**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion y Prifffyrdd a Gofal y Strydoedd – adolygiad i'r Aelodau mewn perthynas â'r ddarpariaeth cludo disgyblion i ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod lefel gyson o wasanaeth yn cael ei darparu ar draws y Fwrdeistref Sirol yn unol â pholisi presennol y Cyngor o ran Teithio gan Ddysgwyr.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau fod y Cyngor yn gweithredu un o'r polisiau mwyaf hael yn y wlad o ran cludo disgyblion, sy'n golygu bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaeth mwyaf yn y wlad o ran cludo disgyblion, sy'n costio mwy na £10 miliwn bob blwyddyn. O ystyried hyn, cynhaliwyd adolygiad i sicrhau bod gwasanaeth cludo disgyblion yn parhau i gael ei ddarparu yn unol â'r polisiau presennol, a meddai'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd yr adroddiad ger bron yr Aelodau yn newid y polisiau hyn mewn unrhyw ffordd. Tynnodd sylw'r Aelodau at Atodiad A i'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at beidio â chludo disgyblion i'r ysgol ar y llwybrau hynny sydd wedi eu hadolygu a'u hamlygu'n rhai lle byddai modd cerdded i'r ysgol yn ddiogel.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden ar ddarpariaeth hael y Cyngor o ran cludiant a bod angen i'r adolygiad sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gysoni â'r polisi.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) bod y ddarpariaeth cludo disgyblion i ysgolion prif ffrwd yn cyd-fynd â'r trefniadau, yr wybodaeth, a'r Polisi Teithio gan Ddysgwyr, ar ôl ystyried yr adolygiad diweddar a gynhaliwyd;
- b) peidio â chludo disgyblion i ysgolion prif ffrwd ar y llwybrau hynny sydd wedi eu hadolygu a'u hamlygu yn Adran 5 ac yn Atodiad A i'r adroddiad yn llwybrau lle byddai modd cerdded yn ddiogel, o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2018/19.

## **60. RHOI GWYBODAETH AM GYNNIG I DDATBLYGU PARC ECO YNG NGHYFLEUSTER RHEOLI GWASTRAFF BRYN PICA**

Trwy ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, adroddiad, a fideo o'r awyr, rhoddodd Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd amlinelliad i'r Aelodau o gynlluniau ynglŷn â'r syniad o ddatblygu Parc Eco i'w ddatblygu ar Safle Bryn Pica, Aberdâr. Meddai y bu'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddenu busnesau ailgylchu allweddol i'r rhanbarth er mwyn gwella'r economi leol, cynyddu gwerth y deunyddiau sy'n cael eu casglu gan y Cyngor, a lleihau'r ôl troed carbon ym maes ailgylchu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y cyfraddau ailgylchu cadarnhaol ar draws y Fwrdeistref Sirol a'r cyfle mae'r economi 'werdd' yn ei gynnig ar gyfer gwella sgiliau lleol a darparu swyddi mae eu mawr angen. Ychwanegodd fod y cynigion yn canolbwyntio ar ddarparu unedau diwydiant ysgafn i'w neilltuo yn benodol ar gyfer sefydliadau/mudiadau sy'n arbenigo mewn ailgylchu dolen gaeedig. Ychwanegwyd y byddai'r cynllun yn gosod esiampl ynglŷn â sut mae modd i'r Cyngor ddatganoli'r galw am ynni a lleihau'r ôl troed carbon ym maes rheoli gwastraff ac ailgylchu, a chynyddu cynnyrch economaidd yn y rhanbarth ar yr un pryd.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden am y cyfle cyffrous o ran y cynnig a'r prosiect arloesol ger bron yr Aelodau. Ychwanegodd y byddai creu swyddi a gwella sgiliau'r gweithlu lleol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Cymeradwyodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr am y gwaith o ran symud y cynnig ymlaen, ac ailadrodd yr agweddau cadarnhaol pellach mewn perthynas â chreu swyddi a lleihau ôl troed carbon y Cyngor.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) nodi a chefnogi gwaith parhaus i ddatblygu'r cynllun yma yn brosiect mae modd ei gyflawni, gan gynnwys y gofynion cynllunio a chaniatâd angenrheidiol;
- b) rhoi cymeradwyaeth i Gyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd gynnal trafodaethau â chwmnïau preifat ac asiantaethau priodol i chwilio am wahanol ffyrdd o ariannu.

(**D.S.** Ar ôl trafod y mater yma, gadawodd y Cynghorydd M. Griffiths y cyfarfod.)

## **61. BUDDSODDI MEWN CANOLFANNAU HAMDDEN A PHYLLAU NOFIO A CHYNLLUN HAMDDEN AM OES 2018–2020**

Rhoddodd Pennaeth Materion Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd Cynllun Aelodaeth Hamdden y Cyngor, sef 'Hamdden am Oes', yn dilyn y rhaglen fuddsoddi ar sail blaenoriaeth 2016.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y rhaglen targedu buddsoddiad mewn cyfleusterau ffitrwydd o'r radd flaenaf a'r cynllun aelodaeth â phris cystadleuol, ac ychwanegu bod y rhain wedi arwain at gynnydd o 33% yn nifer yr aelodau o 7,544 ym mis Ebrill 2015 i 10,079 ym mis Awst 2017. Ychwanegodd y Swyddog fod hyn hefyd wedi arwain at gynnydd mewn incwm; roedd incwm aelodaeth yn £216,000 ar gyfer mis Awst 2017, o'i gymharu â £165,000 ar gyfer mis Ebrill 2015. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd, ers lansio'r cynllun Hamdden am Oes ym mis Ebrill 2015, fod y Cabinet wedi penderfynu cadw'r un pris ar gyfer pob aelodaeth ymrwymedig, ond, ychwanegodd y Swyddog ei fod yn amserol i adolygu'r strwythur prisio, a darparu'r manylion am y cynnydd arfaethedig a'r rhesymeg.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden y buddsoddiad yng nghyfleusterau'r canolfannau hamdden hyd yn hyn a bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth ar yr hyn sydd ar gael, ond, gwnaeth sylwadau hefyd ar yr angen i fuddsoddi rhagor i sicrhau bod canolfannau eraill yn cyrraedd yr un safon.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

***Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.***

- a) nodi'r cynnydd hyd yn hyn yn sgil targedu buddsoddiad;
- b) derbyn y strwythur prisio diwygiedig ar gyfer y cynlluniau aelodaeth 'Hamdden am Oes' fel sydd i'w weld yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn dechrau 1 Ionawr 2018;
- c) derbyn cynnydd o 2.5% ar gyfer costau a ffioedd hamdden eraill, yn dechrau 1 Ionawr 2018;
- d) cefnogi sefydlu rhaglen blaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer gwella'r cyfleusterau newid mewn canolfannau allweddol fel sydd i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad, gan amlygu cyllid yn rhan o'r adroddiad nesaf ar gyfleoedd buddsoddi ehangach.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3:15pm.**

**Y Cynghorydd A. Morgan**

**Cadeirydd**